ATODIAD I

Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol cyfrifoldebau penodol am y maes diogelu. Mae Protocol y Cyfarwyddwr hefyd yn ei le ac yn gosod allan sut mae'r Cyfarwyddwr yn diwallu a chwrdd â'r gofynion o'r swyddogaeth. Mae'r materion yma yn ymwneud a'r gofynion diogelu wedi eu gosod allan ym mharagraffau 64-69 o Ran 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Mae Paragraff 65 yn amlygu'r angen i'r Cyfarwyddwr gael y trosolwg o faterion diogelu ond hefyd yr angen i adrodd i aelodau yn rheolaidd ar drefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion o fewn yr awdurdod a sut mae trefniadau hyn yn gweithio, a beth sydd angen gwella.

1.2 Mae hefyd angen i bob asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.

1.3 I pwrpas y Panel yma, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hamddiffyn, eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag amddiffyn unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

2. CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU

2.1. Nod y Panel yw sicrhau bod trefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion cadarn yn eu lle o fewn y Cyngor wrth ddiwallu 3 dyletswydd statudol, sef dyletswydd gorfforaethol cyffredinol, dyletswydd statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, a dyletswydd diogelwch cymunedol.

2.2 Mi fydd y Panel yn gweithredu ar lefel Strategol er mwyn rhoi sicrwydd i Aelodau ac i'r Cyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant ac oedolion bregus, fod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant , pobl ifanc ac oedolion.

- Adnabod unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain.
- Adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain. (APR, CPR)
- Adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a sicrhau gweithredu ar y rhain
- Adnabod gwersi i'w dysgu o audits mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain
- Hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.
- Bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob aelod etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.
- Bod yn gyfrwng i sicrhau fod aelodau staff ac aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant addas yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma .
- Sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor ym maes diogelu.
- Sicrhau bod gweithdrefnau corfforaethol effeithiol ar waith i sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn addas o ran materion diogelu.
- Galw prosiectau perthnasol i adrodd ar gynnydd.
- Derbyn gwybodaeth rheoli perfformiad – traws adrannol

- Sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth.

4. CADEIRYDDIAETH

4.1. Cadeirydd y Panel bydd Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc.

5. AMLDER CYFARFODYDD

5.1 Bydd Cyfarfodydd bob 8 i 10 wythnos

6. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

6.1 Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet.

6.2 Rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol -os bu angen] trwy swyddogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

7 AELODAETH

Teitl
Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd (Cadeirydd)
Aelod Cabinet – Oedolion Iechyd a Llesiant
Aelod Cabinet - Addysg
Prif Weithredwr
Aelod Cabinet a chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyfarwyddwr Statudol) Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Adran Plant a phobl Chefnogi Teuluoedd
Pennaeth Addysg
Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant
Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
Cadeirydd Panel Diogelu Gweithredol
Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol